# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2024 yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Douglas Fowlie (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Aled M. Jones, R. Llewelyn Jones, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Keith Roberts, Ieuan Williams, Sonia Williams, Alwen Watkin, Arfon Wyn.<br><br>Aelod Cyfetholedig: Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorwyr Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd), Gary Pritchard (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Tai, Plant a Gwasanaethau Ieuenctid), Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid), Neville Evans (Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg), Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo). |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Democratiaeth (DS)<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (CE)<br>Rheolwr Rhaglen Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad (GP)<br>Prif Swyddog Eiddo ac Asedau (MH)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Wenda Owen (Aelod Cyfetholedig - Yr Eglwys yng Nghymru), Gillian Thompson (Aelod Cyfetholedig – Rhiant Lywodraethwr yn y Sector Ysgolion Cynradd) Y Cynghorydd Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Swyddog Sgriwtini (EA) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Bu i'r Cynghorydd Jackie Lewis ddatgan diddordeb personol pan drafodwyd eitem 5 oherwydd ei bod yn cael ei chyflogi gan Fenter Môn, menter y cyfeirir ati yn y Ddogfen Gyflawni.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 27 Chwefror, 2024, 12 Mawrth, 2024 a 21 Mai 2024 (ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd) a chadarnhawyd eu bod yn gywir

## 3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH4 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid sy'n cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r adroddiad cerdyn sgorio yn portreadu sefyllfa diwedd blwyddyn 2023/24 yn erbyn amcanion llesiant y Cyngor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer fel yr adroddiad cerdyn sgorio Ch4 â’r perfformiad gorau ers cyflwyno'r cerdyn sgorio fel adnodd rheoli perfformiad gyda 92% o'r dangosyddion perfformiad yn rhagori o 5% ar eu targedau ar gyfer y flwyddyn. Cyfeiriodd at enghreifftiau penodol o berfformiad nodedig gan gynnwys o fewn Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaeth Digartrefedd lle'r oedd y perfformiad wedi cyrraedd neu ragori ar y targedau ar gyfer y flwyddyn. Roedd enghreifftiau eraill o berfformiad da i'w gweld mewn perthynas â chanran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (100%), nifer yr eiddo a ddaeth yn ôl i ddefnydd (71 yn erbyn targed o 50) a'r rhaglen NERS lle'r oedd 81% o'r cleientiaid a oedd yn mynychu'r rhaglen yn teimlo ei bod wedi bod o fudd i'w hiechyd. Roedd dangosyddion Cynllunio a Rheoli Gwastraff hefyd wedi cyrraedd eu targedau. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai o'r heriau sy'n weddill o ran prosesu ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac ymateb iddynt, canran y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 sy'n cael eu hystyried yn NEET a'r nifer cyfartalog o ddiwrnodau a gymerir i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) lle nad oedd targedau wedi'u cyrraedd. Bydd y meysydd hyn yn cael eu monitro gan y Tîm Arweinyddiaeth i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

Diolchodd y Pwyllgor i Swyddogion a staff am eu cyfraniad tuag at adroddiad cerdyn sgorio diwedd blwyddyn cadarnhaol a nododd yr Aelodau yr enghreifftiau o berfformiadau nodedig yn ystod y flwyddyn. Wrth graffu ar yr adroddiad dyma’r pwyntiau a drafodwyd gan y Pwyllgor –

- Tanberfformiad Dangosydd 3 (NEET) - roedd 4% yn is na'r targed ac yn ostyngiad o gymharu â pherfformiad y ddwy flynedd flaenorol. Gofynnwyd cwestiynau am y cyd-destun i'r dangosydd, y rhesymau dros fethu’r targed yn ogystal â'r mesurau lliniaru sydd yn eu lle i atal y gostyngiad a gwella'r perfformiad yn y maes hwn.
- Y trefniadau ar gyfer sicrhau bod dylanwad cadarnhaol ar y dangosyddion hynny lle mae'r perfformiad presennol ar y targed ond lle mae'r duedd ar i lawr.
- Perfformiad dangosydd 09 (canran yr ymatebion i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlen) oedd yn 80%, sef 10% yn is na’r targed. Awgrymwyd dulliau posibl i wella perfformiad trwy ganolbwyntio ar ddatgelu rhagweithiol, eglurder a hygyrchedd, cyfathrebu ac adborth a thrafod ceisiadau sylfaenol yn effeithlon, a chyfeiriwyd at ddau gyhoeddiad fel ffynonellau gwybodaeth/astudiaethau achos y gellid edrych arnynt i wella'r ffordd yr ymdrinnir â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac i roi sylw i'r rhai sy’n dal heb eu hateb.
- Tanberfformiad parhaus dangosydd 28 (gwaith DFGs) a ph’un ai a yw'r ffaith nad yw contractwyr ar gael a chyfyngiadau cyllidebol yn effeithio ar y perfformiad. Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynghylch ymgysylltu a chyfathrebu â sefydliadau busnes a'r cyhoeddusrwydd a roddwyd i gyfleoedd i gael eu cynnwys ar y rhestr

contractwyr ar gyfer gwaith addasu a ph'un ai a yw'r broses yn agored i gontractwyr bach yn ogystal â chontractwyr mawr.
- Nodwyd perfformiad rhagorol dangosyddion rheoli gwastraff 31-34. Roedd 97.5% o'r strydoedd a arolygwyd yn lân heb unrhyw wastraff ac mae achosion o dipio anghyfreithlon yn dal i gael eu clirio o fewn diwrnod. Mynegwyd gwerthfawrogiad o waith y gwasanaethau casglu gwastraff / ailgylchu a glanhau strydoedd gyda chais fod y Pwyllgor yn diolch i'r staff perthnasol. Yng nghyd-destun rheoli gwastraff, cyfeiriwyd hefyd at gyflwr gwael llawer o flychau ailgylchu a biniau olwynion, roedd rhai wedi eu difrodi a'u hymylon wedi'u torri a allai arwain at ddamwain neu anaf. Awgrymwyd y dylid darparu cynwysyddion gwastraff newydd i gartrefi Môn.
- Y cynnydd o ran cyfradd y bobl hŷn (65 oed neu hŷn) y mae'r Awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth (dangosydd 18) a'r pwysau yn sgil hynny ar y gwasanaeth. Gofynnwyd cwestiynau am y trefniadau sydd ar waith i reoli'r pwysau o safbwynt staff a chyllidebau.
- Y galw cynyddol a'r pwysau ar rai meysydd gwasanaeth o gymharu ag eraill a sut mae'r rhain yn cael eu hystyried fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor.
- Y tanwariant a ragwelir o £1.740m ar gyllideb 2023/24 ac i ba raddau y bydd y tanwariant hwn yn cynorthwyo'r Cyngor ym mlwyddyn ariannol 2024/25.

Ymatebodd swyddogion i'r pwyntiau a godwyd fel a ganlyn –

- Cyhoeddwyd y dangosydd NEET gan Gyrfa Cymru ar ôl cymryd ciplun o'r rhai sy'n gadael ysgol a oedd yn NEET ar 31 Hydref 2023 ac a oedd yn gadael Blwyddyn 11 ym mis Gorffennaf 2023. O'r 645 o oedd yn gadael Blwyddyn 11, nodwyd bod 26 yn NEET gyda 10 o'r bobl ifanc hynny ar gwrs Gyrfa Cymru ac 16 heb fod yn barod ar gyfer addysg am resymau personol a/neu feddygol. Mae gan yr Awdurdod wybodaeth fanwl am nifer y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth a system gadarn i fonitro pob person ifanc NEET 16-18 oed. Mae gwaith y Cydlynydd Ymgysylltu a Chynnydd a'i thîm o gynghorwyr allgymorth wedi cael dylanwad cadarnhaol ar y ffigurau ac mae hyn yn galonogol. Mae'r ffocws ar nodi pobl ifanc sy'n NEET yn gynnar cyn cyhoeddiad cipolwg Gyrfa Cymru ynghyd ag ymyrraeth amserol a gefnogir gan baneli ymyrraeth gynnar y cyfeirir pobl ifanc NEET i'w sylw.
- Gall ffactorau tymhorol ddylanwadu ar adroddiadau perfformiad bob chwarter e.e. dangosydd 32 (canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio) lle mae'r perfformiad yn Ch4 yn Wyrdd ond mae'r duedd i lawr o gymharu â Ch3 sy'n cynnwys misoedd y gaeaf. Yn draddodiadol mae'r gaeaf yn gyfnod sy'n perfformio'n well ar gyfer ailgylchu gwastraff oherwydd natur y gwastraff a gynhyrchir yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig adeg y Nadolig. Mae cynnwys a fformat y cerdyn sgorio corfforaethol yn cael eu hadolygu ar gyfer 2024/25 a gallai hyn arwain at fesur tueddiadau yn erbyn targedau blynyddol yn hytrach na chwarterol trwy'r saeth i lawr / i fyny i roi darlun cliriach o'r tueddiadau.

Gofynnodd y Pwyllgor am ystadegau perfformiad yn erbyn targedau blynyddol i'w alluogi i gymharu tueddiadau o flwyddyn i flwyddyn yn well.

- Y llynedd cafodd 854 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyda bron i 5,000 o gwestiynau o fewn y ceisiadau hynny. Er y bu cynnydd graddol yn nifer y ceisiadau ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth, ar gyfer 2023/24 bu cynnydd yn nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth i 1,002 a chynnydd sylweddol yn nifer y cwestiynau i 6,300. Mae rhai gwasanaethau yn destun llawer mwy o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth nag eraill oherwydd eu bod yn cael effaith ar fywydau pobl ac mae angen targedu'r rhain. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cymeradwyo hyn. Un o'r camau lliniaru sy'n cael eu

cymryd yw uwchraddio swydd y Swyddog Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol sy'n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd gyda threfniadau dros dro yn y cyfamser i gasglu'r data perthnasol, ynghyd â datblygu'r CRM. Er mai ffocws y prosiect CRM ar hyn o bryd yw'r broses gwyno, pan fydd adnoddau'n caniatáu, bydd gwaith yn dechrau ar y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Y nod yw creu dangosfwrdd a fydd ar gael i bob Rheolwr Gwybodaeth, h.y. Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth, fel bod modd iddynt weld cerdyn sgorio yn ddyddiol a fydd yn dangos ceisiadau, amserlenni, cynnydd ac ymatebion hwyr. Cytunir ar y dangosfwrdd gan y Tîm Arweinyddiaeth a fydd yn meddu ar yr holl ddata ac yn gallu nodi unrhyw bwyntiau sydd angen sylw. Mae'r capasiti wedi cael ei ystyried gan fod y gwaith o gasglu gwybodaeth a drafftio ymatebion ar hyn o bryd yn cael ei wneud gan swyddogion o fewn y gwasanaethau a hynny'n ychwanegol at eu dyletswyddau o ddydd i ddydd. Mae datgelu gwybodaeth yn rhagweithiol yn rhywbeth y mae'r Cyngor wedi bod yn ei wneud gyda gwasanaethau yn sgil argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac mae'n cynnwys dadansoddi ceisiadau, nodi themâu cyffredin, ac asesu p'un ai y gellir cyhoeddi data sy'n diwallu'r anghenion gwybodaeth hynny fel mater o drefn. Er nad yw datgelu'n rhagweithiol yn atal cyflwyniadau Rhyddid Gwybodaeth, gall helpu i leihau nifer y ceisiadau drwy gyfeirio pobl at wybodaeth sydd ar gael trwy ddulliau eraill.

- Prinder contractwyr yw un o'r prif ffactorau o ran tanberfformiad dangosydd 28 (cyflwyno DFGs yn brydlon) boed yn fân waith atgyweirio neu'n addasiadau sylweddol. Mae'r Gwasanaeth Tai wedi adolygu'r fframwaith caffael ac wedi ymgysylltu â chontractwyr lleol gan arwain at ehangu'r rhestr o gontractwyr y mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda nhw o 7 i 14 ar gyfer mân waith ac o 8 i 14 ar gyfer gwaith mawr. Gobeithio y bydd yn helpu i sicrhau bod gwaith a ariennir gan grantiau DFG yn cael ei wneud yn gynt a bod perfformiad yn gwella. Yn ôl yr arwyddion cynnar ar gyfer chwarter cyntaf 2024/25 mae nifer y diwrnodau a gymerwyd i wneud gwaith DFG wedi gostwng o'r hyn a gofnodwyd yn Ch4 2023/24. Mewn perthynas â'r dull o ymgysylltu â busnesau a chontractwyr, dywedodd y Rheolwr Rhaglen Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad fod hwnnw'n fater y byddai'r Gwasanaeth Tai yn gallu adrodd arno ar wahân.
- Bod y Cyngor yn ymgysylltu â WRAP Cymru ar hyn o bryd ynglŷn â dadansoddi perfformiad a'r dull o ymdrin â gwastraff ac ailgylchu, gyda'r bwriad o wneud gwelliannau pellach a fydd yn gosod y cyfeiriad ar gyfer cynlluniau'r Cyngor yn y dyfodol. Er bod y pwynt a wnaed am beryglon cynwysyddion gwastraff/ailgylchu a ddifrodwyd wedi'i nodi, mae'r cyfyngiadau cyllidebol presennol yn golygu nad yw'n bosibl darparu cynwysyddion newydd i bob cartref. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i atgyweirio/amnewid cynwysyddion gwastraff ac ailgylchu sydd wedi torri ar gais yn unol â'r polisi casglu gwastraff. Caiff gwasanaeth casglu gwastraff a glanhau strydoedd y Cyngor ei wneud o dan gontract gan Biffa a dylid cyfleu diolchiadau'r Pwyllgor i'w staff.
- Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn gosod safonau ar gyfer cymarebau staffio mewn cartrefi gofal er mwyn sicrhau bod digon o staff i ddiwallu anghenion preswylwyr cartrefi gofal. Mae'r data'n dangos bod nifer y bobl sy'n dechrau cael gofal preswyl ac yn gadael gofal preswyl wedi cynyddu'n sylweddol ers y pandemig gyda mwy o bobl yn dechrau cael gofal am gyfnodau byrrach nag a fu yn flaenorol sy'n effeithio ar ffigur y perfformiad. Mae lefelau staffio priodol yn eu lle i ymateb i'r anghenion hynny.
- O safbwynt rheoli'r galw a'r pwysau o ran adnoddau ar wasanaethau, ystyrir cymryd agwedd fwy integredig tuag at gyllidebau ac arbedion effeithlonrwydd sy'n ystyried newidiadau demograffig a'r amodau economaidd-gymdeithasol ar yr Ynys gan gynnwys amrywiadau lleol. Mae lefelau'r galw yn cael eu hystyried fel mater o drefn mewn trafodaethau am berfformiad gyda Phenaethiaid Gwasanaeth oherwydd gall cynnal perfformiad weithiau fod yn heriol oherwydd y galw. Mae dangos newidiadau

yn y galw a'r tueddiadau yn ei ddogfennau yn rhywbeth y mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo ei wneud yn gliriach ac mae'n elfen a fydd yn cael ei chynnwys yng ngherdyn sgorio newydd 2024/25 a fydd yn ceisio dangos sut mae lefelau'r galw yn newid a sut mae hynny yn ei dro yn dylanwadu ar berfformiad tymor byr a thueddiadau tymor hir mewn meysydd allweddol fel digartrefedd, gofal oedolion ac addysg.
- Mae'r tanwariant a ragwelir o £1.740m ar gyllideb 2023/24 yn golygu y bydd balansau cyffredinol y Cyngor yn cynyddu ar sail y swm hwnnw. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 drosolwg o sefyllfa bresennol balansau cyffredinol y Cyngor sydd, ar ôl ystyried symudiadau i mewn ac allan o'r balansau, yn dangos bod oddeutu £11m ar gael i'r Cyngor i liniaru risgiau. Dywedodd y Swyddog Adran 151 y bydd balansau'r Cyngor, yr argymhellwyd eu cynnal ar 5% o'r gyllideb refeniw net, yn rhoi mwy o gyfle/opsiynau i'r Cyngor wrth bennu cyllideb 2025/26 y disgwylir iddi fod yn heriol ac y gellid ei ddefnyddio i gydbwyso'r gyllideb os oes angen. Er y cydnabyddir nad yw defnyddio balansau cyffredinol i fynd i'r afael â bwlch yn y gyllideb yn ateb tymor hir i ddiffyg cyllid, mae'r balansau'n helpu i gryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor a'i allu i ddelio â heriau cyllido yn y tymor byr.

**Ar ôl adolygu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Ch4 2023/24 ac ar ôl nodi ymatebion Swyddogion i'r pwyntiau trafod a godwyd, penderfynwyd –**

- **Nodi adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Ch4 2023/24 yn cynnwys y meysydd y mae’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol mewn perthynas ag ymateb yn brydlon i geisiadau rhyddid gwybodaeth, canran y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 sy'n NEET a nifer y dyddiau y mae’n ei gymryd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl.**
- **Argymell adroddiad y cerdyn sgorio a'r mesurau lliniaru a amlinellwyd i'r Pwyllgor Gwaith.**

**Camau ychwanegol –**

- **Bod y Pwyllgor yn cael gwybodaeth am yr ystadegau perfformiad yn erbyn targedau blynyddol er mwyn iddo allu cymharu tueddiadau o flwyddyn i flwyddyn.**
- **Gofyn i'r Prif Weithredwr ar ran y Pwyllgor ysgrifennu at Brif Weithredwr a Rheolwr Ardal Biffa i gyfleu gwerthfawrogiad y Pwyllgor a diolch am y gwaith a wnaed ar Ynys Môn gan staff casglu gwastraff a glanhau strydoedd Biffa.**

**4 HUNAN ASESIAD CORFFORAETHOL BLYNYDDOL 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid sy’n cynnwys adroddiad hunanasesu blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer fel y trydydd adroddiad hunanasesu a baratowyd gan y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Mae'r adroddiad yn darparu sail dystiolaeth ar gyfer sut mae'r Cyngor wedi perfformio dros y flwyddyn gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael wrth reoli a lliniaru risgiau cysylltiedig. O'r saith maes allweddol y canolbwyntir arnynt yn yr hunanasesiad, asesir bod pedwar maes (cynllunio gwasanaethau, cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu a rheoli perfformiad) yn rhagori ar ddisgwyliadau tra asesir bod tri maes (rheoli asedau, caffael a rheoli contractau, a rheoli risg ac archwilio) yn bodloni disgwyliadau. Yn ogystal â hyn, mae'r adroddiad yn nodi bod lle i wella a monitro sawl maes yn ystod 2024/25.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor –

- Y cynllun gweithredu a'r amserlenni i sicrhau gwelliant parhaus o ran rheoli asedau sy'n faes a asesir fel un sy'n bodloni disgwyliadau (melyn).
- P'un ai y gellir rhoi sicrwydd y bydd y tri maes allweddol a aseswyd fel rhai sy'n bodloni disgwyliadau yn parhau i wella.
- O ran caffael a rheoli contractau, gofynnwyd am eglurhad o'r contract cyfreithiol arbenigol gwerth £3m.

Ymatebodd swyddogion i'r pwyntiau a godwyd fel a ganlyn –

- Bod Cynllun Strategol Rheoli Asedau newydd ar gyfer 2024 i 2029 wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mai 2024. Mae'n canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth allweddol mewn perthynas ag addasrwydd asedau'r Cyngor, cynaliadwyedd ei asedau, cydweithredu wrth gynllunio a rheoli asedau fel adnodd corfforaethol, a chynllunio asedau sy'n cael ei yrru gan ddata. Mae'r rhain yn nodi nifer o gamau i'w cymryd i wella trefniadau rheoli asedau'r Cyngor. Dyddiau cynnar yw hi o ran gweithredu'r Cynllun sy'n rhychwantu'r tymor canolig, ac mae'r amserlenni ar gyfer y camau a nodwyd yn cael eu pennu. Y flaenoriaeth yw sefydlu cronfa ddata gadarn o wybodaeth am asedau a fydd yn sbarduno camau dilynol yn y meysydd blaenoriaeth eraill.
- Bod arbenigwr caffael allanol yn edrych ar drefniadau caffael presennol y Cyngor i weld a yw'n barod ar gyfer y newidiadau sylweddol sydd i'w cyflwyno i drefn gaffael y sector cyhoeddus ym mis Hydref 2024 yn sgil y Ddeddf Gaffael newydd a fydd hefyd yn berthnasol yng Nghymru. Maent wedi datblygu cynllun gweithredu dwy flynedd ar gyfer gwelliannau sy'n canolbwyntio ar greu strategaeth gaffael newydd a'i hintegreiddio i gynlluniau gwasanaeth a'r drefn lywodraethu. Bydd rheoliadau newydd yn cael eu cynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor, crëir llawlyfr caffael ar gyfer staff, diffinnir rolau a chyfrifoldebau, strwythur a sgiliau'r tîm Caffael, cesglir data ac adroddir ar berfformiad ar weithgarwch caffael. Gofynnwyd hefyd i'r arbenigwr caffael allanol ddarparu cymorth i gyflawni'r cynllun gweithredu.
- Bod rheoli risg sydd ar hyn bryd yn dod o fewn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnwys trefniadau ar gyfer adolygu cofrestri risg corfforaethol a gwasanaeth a sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru yn ogystal â bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae swydd y Rheolwr Risg yn wag ar hyn o bryd gan fod deiliad y swydd wedi gadael i wneud swydd arall yn y Cyngor. Mae'r swydd wag wedi rhoi cyfle i adolygu lle mae'r cyfrifoldeb rheoli risg o fewn strwythur y Cyngor.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod integreiddio gwaith adolygu cyllidebau, monitro'r galw a rheoli perfformiad gyda phrosesau rheoli risg y Cyngor fel rhan naturiol o waith o ddydd i ddydd yn hanfodol gan y gall amgylchiadau newid yn gyflym o ganlyniad i ddeddfwriaeth neu amodau cyllido. Bydd angen gwneud gwaith pellach i integreiddio'r prosesau hynny ond bydd yn talu ar ei ganfed wrth i'r Cyngor wneud penderfyniadau gwell a mwy amserol. Gwnaed cais gan y Pwyllgor fod cynlluniau gweithredu'n cael eu darparu, ymhen chwe mis, ar gyfer y tri maes allweddol a aseswyd fel rhai sy'n bodloni disgwyliadau, i weld faint o gynnydd a wnaed a bod yr Hunanasesiad Corfforaethol yn dangos sut mae'r camau a gymerwyd wedi sicrhau bod y tri maes allweddol hynny mewn sefyllfa lle maent hefyd yn rhagori ar ddisgwyliadau.

Wrth gydnabod ei bod yn bwysig i'r Pwyllgor gael sicrwydd bod cynnydd yn cael ei wneud, dywedodd y Prif Weithredwr y bydd y Cyngor yn ail hanner 2025 yn cael ei asesu gan banel perfformiad lle bydd panel annibynnol a drefnir gan y Cyngor yn asesu i ba raddau y

mae'r Cyngor yn bodloni gofynion perfformiad. Bydd y gwaith asesu corfforaethol yn ogystal â'r diweddariadau cynnydd dilynol yn rhoi tystiolaeth bwysig i'r panel bod y Cyngor wedi ymrwymo i wella perfformiad yn barhaus.

- Bod y gwaith caffael mewn perthynas â'r contract cyfraith arbenigol yn cyfeirio at waith cyfreithiol a gomisiynwyd o ran datblygiadau strategol cymhleth ar raddfa fawr megis Porthladd Rhydd Ynys Môn neu Wylfa Newydd sydd angen mewnbwn arbenigol yn ychwanegol at gapasiti/arbenigedd gwasanaethau cyfreithiol y Cyngor. Mae gwasanaeth arbenigol o'r fath yn cael ei gaffael yn unol â fframwaith caffael Llywodraeth Cymru ond os nad yw'r arbenigedd gofynnol ar gael o dan y Fframwaith, bydd y Cyngor yn caffael y gwaith allanol y byddai'r gwasanaeth cleientiaid yn ei wneud gyda chymorth gwasanaethau cyfreithiol y Cyngor. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor ynghylch a oedd gwybodaeth ar gael am y gwaith a gomisiynwyd a manylion y costau, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fod yr wybodaeth honno ar gael ac yn cael ei darparu fel rhan o'r broses her gwasanaeth. Gall Aelod ofyn am weld y wybodaeth a fyddai'n cael ei hystyried o dan ddarpariaethau Rhyddid Gwybodaeth gan ei bod yn debygol o gynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif sy'n ymwneud â'r cwmnïau a gomisiynir. Mewn ymateb i gwestiynau pellach ynghylch cyfiawnhau'r gost o £3m, dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro na fyddai'r Cyngor yn debygol o allu recriwtio gweithwyr proffesiynol cyfreithiol arbenigol yn barhaol ar sail cyfraddau cyflog y sector cyhoeddus ac mai'r ffordd orau ymlaen fyddai comisiynu cymorth cyfreithiol allanol i fodloni'r gofynion arbenigol penodol.

**Ar ôl craffu ar y dogfennau, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gymeradwyo Hunanasesiad Corfforaethol Blynyddol 2024 i'w ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Gwaith.**

**Camau ychwanegol –**

- **Bydd y Pwyllgor yn cael ei diweddaru ymhen chwe mis ynghylch y cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu mewn perthynas â'r tri maes allweddol a aseswyd fel rhai sy'n bodloni disgwyliadau (yn hytrach na rhagori ar ddisgwyliadau).**
- **Bod yr Adroddiad Hunanasesiad Corfforaethol ar gyfer 2024/25 yn dangos sut mae'r camau a gymerwyd wedi cynorthwyo'r tri maes allweddol hynny ragori ar y disgwyliadau.**
- **Bod gwybodaeth am y gwaith a gomisiynwyd a'r costau mewn perthynas â ffioedd cyfreithiol allanol ar gael i'r Cynghorydd A.M. Jones fel cais Rhyddid Gwybodaeth a bod copïau'n cael eu darparu i aelodau'r Pwyllgor.**

## 5 DOGFEN GYFLAWNI BLYNYDDOL 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid sy'n cynnwys y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2024/25 i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer fel un sy'n nodi ffrydiau gwaith allweddol y Cyngor ar gyfer 2024/25 a fydd yn cyfrannu at gyflawni amcanion strategol Cynllun y Cyngor 2023-2028.

Wrth ystyried cynnwys y Ddogfen Gyflawni Flynyddol, trafodwyd y canlynol gan y Pwyllgor –

- Y ffyrdd y mae'r Ddogfen Gyflawni arfaethedig yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor.

- Y rhesymeg dros osod targed i drochi 96 o ddisgyblion heb fawr ddim sgiliau Cymraeg neu ddim sgiliau Cymraeg drwy ganolfannau iaith.
- O ystyried ymestyn hawliau pleidleisio i bobl ifanc 16 oed yn y Senedd ac etholiadau lleol yng Nghymru ac ymrwymiad y Cyngor i sicrhau bod cyfleoedd i glywed lleisiau plant a phobl ifanc, y ffyrdd y mae'r Cyngor yn bwriadu ymgysylltu'n well â phobl ifanc mewn democratiaeth leol a defnyddio eu pleidlais, a ph’un ai a ddylai ysgolion fod yn addysgu pobl ifanc am wahanol ffurfiau, strwythur a datblygiad democratiaeth.
- Y risgiau a'r heriau wrth geisio cyflawni'r blaenoriaethau a bennwyd ar gyfer 2024/25.
- P'un a yw'r ymrwymiad i ddatblygu 30 o gartrefi newydd yn ddigon uchelgeisiol.
- Sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyrraedd a dylanwadu ar gymunedau o ran ei uchelgeisiau newid hinsawdd.
- Y cyhoeddusrwydd a roddwyd i ddogfen Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a’i ddosbarthiad/gylchrediad ar gyfer ymwybyddiaeth y cyhoedd.
- Yn wyneb arwyddocâd a phwysigrwydd strategol datblygu niwclear i economi'r Ynys ac ymhellach i ffwrdd, awgrymodd y Pwyllgor fod cyfeiriad penodol ac ar wahân ar gyfer Wylfa yn cael ei chynnwys o dan ymrwymiadau economaidd y Ddogfen Gyflawni, a chefnogwyd hynny. Yn yr un modd, awgrymodd y Pwyllgor fod cyfeiriad penodol at ymrwymiad y Cyngor i ymgysylltu â'r sector busnes hefyd yn cael ei gynnwys yn yr un rhan o'r Ddogfen, a chefnogwyd hynny.

Ymatebodd swyddogion i'r pwyntiau a godwyd fel a ganlyn –

- Bod y Ddogfen Gyflawni wedi'i llunio i gyd-fynd â blaenoriaethau strategol Cynllun y Cyngor ac yn cynnwys y gweithgareddau y bydd y Cyngor yn eu cyflawni yn 2024/25 a sut mae'r rheini'n adlewyrchu'r hyn y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w gyflawni erbyn 2028 yng Nghynllun y Cyngor. Bydd perfformiad y Cyngor yn cael ei adolygu ar ddiwedd 2024/25 i asesu i ba raddau y mae wedi cyflawni ei amcanion ar gyfer y flwyddyn a sut mae'r rheini wedi cyfrannu tuag at wireddu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor.
- Gofyn i Gyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc egluro sail y targed ar gyfer trochi 96 o ddisgyblion heb fawr ddim sgiliau Cymraeg neu ddim sgiliau Cymraeg drwy ganolfannau iaith a'r wybodaeth a ddosbarthwyd i aelodau'r Pwyllgor.
- Bod swyddog o fewn y Cyngor, sydd fel rhan o’i gyfrifoldebau, yn gyfrifol am hyrwyddo a thynnu sylw at bwysigrwydd pleidleisio ymhlith pobl ifanc 16 oed a bod rhaglen waith wedi'i datblygu i gefnogi'r gwaith hwnnw yn bennaf trwy’r rhwydweithiau presennol a thrwy gydweithio â'r colegau a dosbarthiadau chweched dosbarth mewn ysgolion. O ran addysgu am ddemocratiaeth mewn ysgolion, dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod y Fforwm Plant a Phobl Ifanc wedi'i ailsefydlu ac y byddai'n cyfleu'r neges i'r Gwasanaeth Dysgu.
- Bod llawer o'r ffrydiau gwaith a amlinellir yn y Ddogfen Gyflawni yn dibynnu ar gyllid grant allanol i’w cyflawni, ond mewn rhai achosion nid yw’r grantiau wedi’u cadarnhau eto. Mae hon yn risg a bydd yn destun gwaith monitro parhaus ar hyd y flwyddyn. Gallai olygu y bydd angen addasu rhywfaint ar y ddogfen yn unol ag amgylchiadau.
- Bod modd cyflawni'r targed o ddatblygu 30 o gartrefi newydd o safbwynt capasiti, yr adnoddau a’r tir sydd ar gael i’r Cyngor ond mae'n annhebygol o fod yn ddigon o ran diwallu anghenion tai lleol a digartrefedd. Mae'n hanfodol bod y Cyngor ac eraill yn parhau i ddatblygu cartrefi newydd fel arall bydd y bwlch rhwng y galw a'r ddarpariaeth yn ehangu a bydd y Cyngor yn wynebu pwysau cynyddol yn sgil digartrefedd.
- Bod Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol yn destun ymgynghoriad chwe wythnos ar hyn o bryd a bydd yn llywio'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol

newydd ar gyfer Ynys Môn. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn yr un modd â holl ymgynghoriadau eraill y Cyngor ac mae'r Bwrdd Ymgynghori ac Ymgysylltu wedi craffu arno. Argymhellodd y Prif Weithredwr y dylid cyfeirio'r cwestiwn at y Pwyllgor Polisi Cynllunio fel y gall Aelodau ystyried a yw'r cyhoedd yn ddigon ymwybodol o bolisi cynllunio a'i arwyddocâd a sut y gallant gael dweud eu dweud am y modd y caiff ei ddatblygu ac a oes angen cynllun o fewn cymunedau. Cadarnhawyd ymhellach fod copïau o Gytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn wedi eu dosbarthu i lyfrgelloedd Ynys Môn a lleoliadau cyhoeddus eraill er nad oedd gwybodaeth am union nifer y copïau a oedd ar gael wrth law ar unwaith. Nid yw'n bolisi gan y Cyngor i argraffu a dosbarthu copïau papur oni bai y gofynnir amdanynt.
- Bod y Cyngor wedi ymrwymo i fod yn sefydliad sero net erbyn 2030. Mae wedi sefydlu targedau heriol i leihau ei allyriadau carbon. O ran yr hyn sy'n digwydd ar lefel gymunedol mae'r Cyngor yn datblygu cyfraddau ailgylchu gwastraff cartref, gwaith lliniaru llifogydd, llwybrau teithio llesol yn ogystal â pharatoi i weithredu rhaglen i osod pwyntiau gwefru EV ar hyd a lled yr Ynys. Mae ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael yn her sylweddol ac er bod y ffocws ar y Cyngor ei hun ar hyn o bryd, mae cymaint o gefnogaeth â phosibl yn cael ei rhoi i ddiogelu cymunedau trwy brosiectau, prosesau a systemau'r Cyngor.

**Ar ôl craffu ar y dogfennau, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gymeradwyo Dogfen Gyflawni Flynyddol 2024/25 i'r Pwyllgor Gwaith gyda'r argymhelliad bod y ddogfen yn cynnwys cyfeiriad penodol ac ar wahân at Wylfa o dan yr adran ymrwymiadau economaidd yn ogystal â chyfeiriad at ymrwymiad y Cyngor i ymgysylltu â'r sector busnes.**

**Camau ychwanegol –**

- **Gofyn i Gyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc egluro sail y targed ar gyfer trochi 96 o ddisgyblion heb fawr ddim sgiliau Cymraeg neu ddim sgiliau Cymraeg drwy ganolfannau iaith a rhannu'r wybodaeth i aelodau'r Pwyllgor.**
- **Bod y cyhoeddusrwydd a roddwyd i ddogfen Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ddogfen yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Polisi Cynllunio i'w ystyried. Y Prif Weithredwr i gadarnhau nifer y copïau a baratowyd ac a ddosbarthwyd**.

## 6 GRWP TASG A GORFFEN SGRIWTINI: GOSOD TAI'R AWDURDOD LLEOL (DANGOSYDD PERFFORMIAD ALLWEDDOL 29) - ADRODDIAD TERFYNOL

Cyflwynwyd adroddiad Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i archwilio perfformiad dangosydd 29 (nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i osod uned llety sy'n rhai y mae modd eu gosod ac eithrio unedau Anodd eu Gosod) gyda'r bwriad o wella'r perfformiad i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad a chanfyddiadau'r Panel gan y Cynghorydd Ieuan Williams, Cadeirydd y Panel a roddodd drosolwg o gwmpas, methodoleg ac amcanion y Panel ynghyd â'i gasgliadau a'i argymhellion fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad. Roedd y Panel wedi gwneud pedwar argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith fel ffordd o wella'r perfformiad lleol yn erbyn Dangosydd Perfformiad Allweddol 29. Cyfeiriodd y Cynghorydd Ieuan Williams hefyd at y gwersi a ddysgwyd o'r prosiect tasg a gorffen a gofynnodd ai trefnu bod grŵp o'r math hwn cynnal ymarfer wedi'i gyfyngu o ran amser yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ymchwilio i berfformiad. Awgrymwyd dulliau eraill posibl ar gyfer gwella'r gwaith a'r perfformiad.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Panel am ei amser a'i waith ac i'r Swyddogion a adroddodd i'r Panel a'r rhai a gefnogodd y Panel i ymgymryd â’r dasg.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei ddiolch am y gwaith a wnaed ac argymhellodd fân welliant i eiriad yr argymhelliad (1) i gynnwys cyfeiriad at y flwyddyn y byddai'r targed perfformiad yn berthnasol i'r perwyl bod *y targed perfformiad lleol ar gyfer DPA 29 ar gyfer 2025/26 yn cael ei osod yn 35 diwrnod calendr i ailosod unedau llety y gellir eu gosod (ac eithrio unedau anodd eu gosod).*

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo adroddiad terfynol y Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini ynghyd â'i brif ganfyddiadau a’r 4 argymhelliad unigol fel y manylir arnynt yn Atodiad 1 i'r adroddiad gyda'r gwelliant i eiriad argymhelliad (1) fel yr amlinellwyd.**
- **Cytuno bod yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.**

**7 BLAEN RAGLEN WAITH 2024/25**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini sy'n cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 i'w hystyried.

**Penderfynwyd cytuno ar fersiwn gyfredol y Blaen Raglen Waith ar gyfer 2024/25 fel y'i cyflwynwyd.**

**Cynghorydd Douglas Fowlie**
**Cadeirydd**